

## WYT TI'N YMWHYBODOL O DY ANGEN YSBRYDOL?

*Nodyn i'r siaradwr:*

Pwysleisia'r ffordd iawn o foddhau ein hangen ysbrydol. Rho anogaeth ac awgrymiadau ymarferol ar sut i oresgyn rhwystrau a all ffrwyno twf ysbrydol

### **MAE ANGEN YSBRYDOL AR BAWB** (4 mun.)

Cyfeiriodd Iesu at yr angen ysbrydol cynhenid sydd ar bawb [**Darlenna Mathew 5:3, BCND**]

Chwiliwn am ystyr ym mywyd ac am atebion i gwestiynau dwysaf bywyd (*w13-E 4/1 6*)

Mae pobl yn ceisio bodloni eu hanghenion ysbrydol mewn ffyrdd amrywiol (*w07-E 8/1 3*)

Niferus yw'r syniadau crefyddol ar ysbrydolrwydd, gyda llawer yn tynnu'n groes i'w gilydd

Ni allan nhw i gyd fod yn wir, felly ni allan nhw fodloni ein hangen ysbrydol

### **SUT I FODDHAU'CH ANGEN YSBRYDOL** (13 mun.)

Addawodd Iesu y buasai'r "rhaid sy'n llwgu a sychedu am gyfiawnder" yn cael eu bodloni [**Darlenna Mathew 5:6**]

Bod â syched am gyfiawnder yw'r chwant am iawnder yn ôl safonau Duw

Rhaid troi at ein Creawdwr i foddhau ein hanghenion ysbrydol

Dymunai Jehofa Dduw fod pobl yn canfod gwirionedd ysbrydol (Sal 32:8; Act 17:26, 27)

Yn y Beibl, cawn gyfarwyddyd ysbrydoledig Duw (2Ti 3:16)

Cyfeiriodd Iesu yn aml at Air ysgrifenedig Duw (Mth 4:4, 7, 10; Lc 10:25-28)

Mae'r Beibl yn oruwch nag unrhyw lyfr arall (*w12-E 6/15 27-28 ¶8-9*)

Er mwyn boddhau'n hangen ysbrydol rhaid myfyrio'n drylwyr ar neges y Beibl, a'i chymhwyso yn ein bywyd (Iag 1:22-25)

Ein Creawdwr sy'n gwybod beth sydd orau inni, felly ei safonau moesol ef sy'n gweithio er ein lles (Sal 19:7-10)

O ddilyn cyngor Duw cawn ei gymeradwyaeth, a gallwn ni ddod yn ffrindiau iddo (Sal 15:1, 2; Iag 2:23)

Ni fydd ceisio digoni ein hangen ysbrydol rhywsut arall yn dod â'r un boddhad

Bydd bodloni ein hangen ysbrydol yn y ffordd iawn yn creu gobaith sicr at y dyfodol

Yn ôl Iesu, bydd y rhaid sy'n "dlodion yn yr ysbryd" yn etifeddu "teyrnas nefoedd" (Mth 5:3, *BCND*)

Nifer bychan bydd yn rheoli gyda Iesu yn Nheyrnas nefol Duw (Lc 12:32)

Bydd tyrfa fawr yn mwynhau bywyd tragwyddol ym mharadwys ar y ddaear dan reolaeth Teyrnas Dduw (Mth 25:34)

### **RHWYSTRAU RHAG BODLONI EIN HANGEN YSBRYDOL** (10 mun.)

Er gwaethaf eu hangen ysbrydol, mae llawer yn methu cymryd y camau cywir i'w fodloni

Fel rhagfynegodd Iesu, mae rhai ynghlwm ym mhethau cyffredin bywyd (Mth 24:3, 37-39)

Gall ddeall proffwydoliaeth y Beibl roi sicrhad mai dyma'r "cyfnod olaf" a bod angen ymateb â brys arnon ni (2Ti 3:1-5)

Yn gyntaf, mae rhai yn ymateb yn ffafriol i neges y Beibl ond wedyn yn methu aeddfedu'n ysbrydol

[**Darlenna a thrafoda'r gwahanol rwystrau fel y'u disgrifir ym Mathew 13:3-8, 19-23**]

Gallwn ni oresgyn y fath rwystrau drwy dyfu yn ein gwerthfawrogiad at ddoethineb y Beibl (*w03-E 2/1 8-13*)

I rai mae safonau moesol y Beibl yn hen ffasiwn, neu'n rhy anodd eu dilyn

Nid yw safonau moesol y byd yn llacio o hyd am fod dynion yn fwy goleuedig, ond yn hytrach am fod dylanwad cryf yr ysbrydion drwg arnyn nhw (1In 5:19; Dat 12:9, 12)

Gyda help Jehofa, mae'n bosib i ni fyw bywyd glân a hapus, mewn harmoni â'i safonau cyfiawn (1Co 6:11)

### **RHO'R LLE CYNTAF I FODLONI DY ANGEN YSBRYDOL** (3 mun.)

Er bod angen ymdrech i foddhau dy angen ysbrydol, mae'r ymdrech yn arwain at hapusrwydd (Mth 5:3, *BCND*)

Cadwa astudiaeth o'r Beibl a bod yn y cyfarfodydd Cristnogol yn y lle cyntaf (Mth 6:33)

Helpa aelodau dy deulu ac eraill i fod yn ymwybodol o'u hangen ysbrydol ac o sut i'w fodloni (Dat 22:17)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodir ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169, a'r llyfryn *Darllen a Dysgu*, gwersi 4, 6, 8, 13, 14, 19]